| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD | **23 MAWRTH 2012** |
| TEITL | **ADENNILL GORDALIADAU PENSIWN YN DILYN MARWOLAETH** |
| ARGYMHELLIAD | **I GYMERADWYO TREFN A LEFEL GORDALIAD PENSIWN I ADENNILL YN DILYN MARWOLAETH** |
| AWDUR | **GARETH JONES – RHEOLWR PENSIYNAU** |

## 1. Cefndir

1.1 O dan bolisi gweinyddu presennol y Gronfa, a gymeradwywyd gan y pwyllgor hwn yn 1998, ni hawlir gordaliadau pensiwn £50 (net) neu lai yn dilyn marwolaeth pensiynwyr Pan mae taliadau dilynol yn ddyledus hawlir unrhyw ordaliad o’r taliadau hynny.

1.2 Pe bae’r un raddfa o godiadau yn cael ei weithredu yn erbyn y £50 hwn ac ar bensiwn o’r un gwerth yn daladwy ar 1 Ebrill 1998 byddai’r pensiwn hynny yn £74.37 fel o 9fed o Ebrill 2012.

1.3 Ers cyflwyno’r cynllun monitro marwoldeb ‘ATMOS’ a gymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ar y 29ain o Fawrth 2010 mae nifer y gordaliadau wedi gostwng o ganlyniad i dderbyn yr adroddiadau marwoldeb misol.

1.4 Mae gofyn am ad-daliad o symiau gweddol isel yn dilyn marwolaeth yn fater sensitif ac, oherwydd natur profiant, yn cymryd amser i’w datrys a ddim yn gost effeithiol o ran adnoddau. Yn ogystal gall rhai ysgutorion neu bersonau yn ystadau yn peidio ymateb i gyfathrebiadau neu wrthod ad-dalu.

## 2. Argymhelliad yr Archwilydd Mewnol

2.1 O ganlyniad i’r uchod gofynnais i’r Archwiliwr Mewnol ddarparu cyngor ar y lefelau ag amgylchiadau lle nid oes gwerth mewn erlid ad-daliadau.

2.2 Mae’r canlynol yn ddyfyniad o adroddiad yr Archwiliwr dyddiedig 20o Ragfyr 2011:

***"Bu i’r archwiliwr ymholi beth oedd trefniadau cronfeydd pensiwn eraill mewn perthynas â gordaliadau. Gwelwyd bod rhai gyda chanllawiau ar gyfer swyddogion sy’n amlinellu’r trefniant ar gyfer adennill gordaliadau pensiwn a gwelwyd yn ogystal bod y trefniadau’n amrywio yn ddibynnol ar ffactorau megis swm y gordaliad a’r rheswm dros y gordaliad..........Yn sgil yr adolygiad o’r trefniadau ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd a’r gwaith ymchwil a wnaethpwyd, awgrymir bod y pwyntiau canlynol, sydd ym marn yr archwilwyr yn ymarfer da sydd wedi eu mabwysiadu gan Cronfeydd Bensiwn eraill, yn cael eu hystyried fel arf i hwyluso a lliflinio’r broses:***

- ***Cynyddu lefel swm adennill gordaliadau pensiwn o £50 i oddeutu £100 - a bod y lefel yn cael ei adolygu'n rheolaidd i adlewyrchu chwyddiant.***
- ***Hepgor gordaliadau sydd wedi eu creu yn y mis y bu'r farwolaeth.***
- ***Os yw'r gordaliad o ganlyniad i fethiant ar ran yr Uned Bensiynau, yna gellid hepgor y gordaliad. Dylid ystyried lefelau awdurdodiad penodol ar gyfer hepgor gordaliadau.***
- ***Sefydlu canllawiau eglur yn manylu ar y gwahanol gamau a ddylid eu cymryd mewn perthynas â'r gordaliad yn seiliedig ar y rheswm dros y gordaliad, e.e. os mai camgymeriad ar ran y Gronfa Bensiwn neu'r unigolyn yw'r gordaliad, neu os oes amheuaeth o dwyll, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i ymdrechu i adennill gordaliadau pensiwn o ganlyniad i dwyll yn hytrach na gwallau gweinyddol. Bydd hyn yn fodd o warchod y Gronfa Bensiwn rhag cyhoeddusrwydd anffafriol.***
- ***Anfonebu drwy'r Uned Incwm os yw'r gordaliad o ganlyniad i fethiant i hysbysu ar ran y pensiynwr neu mewn achos o dwyll fel y gellir dilyn y trefniadau adennill arferol.***
- ***Ymgynghori â'r Uned Gyfreithiol i ddylunio llythyr i'w anfon at y banc i geisio adennill yr arian mewn achos o farwolaeth.***

2.3 Dehongliad Hymans Robertson o'r Ddeddf Gyllid 2004 fel ac y mae'n berthnasol i dreth ar bensiynau yw bod CThEM yn ystyried gordaliadau pensiwn sydd ddim yn ddyledus o dan reoliadau'r cynllun yn "daliadau anawdurdoedig' (unauthrosied payments) ac yn deilwng o gael ei drethu. Fodd bynnag, maent hefyd yn datgan ni fyddai CThEM yn erlid treth ar ordaliadau unigol o lai na £250.

## 3. Argymhelliad

3.1 Gofynnir i aelodau gymeradwyo'r polisi canlynol sydd yn ystyried adroddiad yr Archwiliwr a goblygiadau'r Ddeddf Gyllid 2004.

- Mai o 1af o Ebrill 2012 dimo nd gordaliadau uwch na £100 fydd yn cael ei erlid yn dilyn marwolaeth pensiwnwr lle nid oes taliadau dilynnol
- Bod y £100 i godi ar 9fed o Ebrill yn flynyddol yn unol â gorchymyn codi pensiynau a hyd at y bunt lawn agosaf hyd cyrheiddir gwerth terfan trethadwy'r CthEM ac i godi drachefn dim ond os codir y derfan hynny.
- Bod y Rheolwr yn adolygu'r canllawiau presennol a sefydlu canllawiau eglur yn manylu'r gwahanol gamau a ddylid eu cymryd mewn perthynas â'r gordaliadau ac wrth ystyried y ddau bwynt uchod.
- Bod y Rheolwr yn ymgynghori gyda'r uned gyfreithiol i ddylunio llythyr i'w anfon i fanciau i geisio adennill gordaliadau sy'n ormodedd i'r lefel terfan oddi wrthynt.